



Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: sut i ymateb i ddigwyddiad

Trosolwg i staff sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg yng Nghymru

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg byr i staff rheng flaen ynglŷn â sut i ymateb i achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth.

Dylid rhoi gwybod am **bob** achos o'r fath i'r person diogelu dynodedig (DSP) neu'r person cyfatebol, a dylid eu rheoli yn unol â pholisïau amddiffyn plant eich lleoliad.

Dylai'r DSP (neu'r person cyfatebol) fod yn gyfarwydd â'r canllawiau llawn, **Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc (2020)**, ar gyfer lleoliadau addysg. Datblygwyd y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â Gweithgor Addysg Cyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngwrdd; **ni** ddylai'r DSP ddefnyddio'r ddogfen hon yn lle'r canllawiau llawn.

Beth rydym yn ei olygu wrth rannu delweddau noeth a hanner noeth?

Yn y cyngor diweddaraf i leoliadau addysg, diffinnir rhannu delweddau noeth a hanner noeth fel creu a/neu rannu delweddau, fideos neu ffrydiau byw noeth neu hanner noeth gan bobl ifanc o dan 18 oed. Gallai hyn ddigwydd ar y cyfryngau cymdeithasol, platfformau chwarae gemau, apiau sgwrsio neu fforymau. Gallai hefyd olygu rhannu rhwng dyfeisiau drwy wasanaethau fel AirDrop Apple, sy'n gweithio all-lein. Ymhlith y termau eraill a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc efallai mae '*dick pics*' neu '*pics*'.

Nid yw'r cyngor hwn yn berthnasol i achosion o rannu lluniau a fideos rhywiol o blant neu bobl ifanc o dan 18 oed ag oedolion neu gan oedolion. Mae hynny yn ffurf ar gam-drin plant yn rhywiol a rhaid cyfeirio achosion felly i'r heddlu.

Beth i'w wneud os daw achos i'ch sylw

Rhowch wybod i'ch DSP neu'r person cyfatebol ar unwaith. Dylai polisi amddiffyn plant eich lleoliad amlinellu'r codau ymarfer i'w dilyn.

- **Peidiwch byth** ag edrych ar y ddelwedd eich hun, gwneud copi ohoni, ei hargraffu, ei rhannu, ei storio na'i harbed, a pheidiwch â gofyn i blentyn ei rhannu na'i lawrlwytho – **mae hyn yn anghyfreithlon.**
- Os ydych chi eisoes wedi gweld y ddelwedd drwy ddamwain (e.e. os yw person ifanc wedi'i dangos ichi cyn ichi allu gofyn iddo beidio), rhowch wybod i'r DSP (neu'r person cyfatebol).

- **Peidiwch** â dileu'r ddelwedd na gofyn i'r person ifanc ei dileu.
- **Peidiwch** â gofyn i'r plentyn/plant neu'r person/pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r achos ddatgelu gwybodaeth am y ddelwedd. Cyfrifoldeb y DSP (neu'r person cyfatebol) yw hyn.
- **Peidiwch** â rhannu gwybodaeth am y digwyddiad gydag aelodau eraill o'r staff, y person/pobl ifanc sy'n gysylltiedig, eu rhieni/gofalwyr nhw na rhieni/gofalwyr eraill.
- **Peidiwch** â dweud na gwneud unrhyw beth i feio na chodi cywilydd ar y person/pobl ifanc dan sylw.
- **Esboniwch** iddyn nhw bod angen ichi roi gwybod am y digwyddiad, a sicrhewch nhw y byddant yn cael cefnogaeth a chymorth gan y DSP (neu'r person cyfatebol).

I gael gwybod mwy

Lawrlwythwch y canllawiau llawn ar gyfer lleoliadau addysg, ***Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc*** yn hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/canllawiau-llywodraeth-cymru/.